

Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb– Coetiroedd y Gymru

Adran: Materion Gwledig	Is-adran: Comisiwn Coedwigaeth – ar ran yr Adran Materion Gwledig
Dyddiad: 02.10.08	

Enw'r Polisi/Swyddogaeth/Cam Gweithredu	A yw'n newydd Ydy / Na
Strategaeth Coetiroedd Cymru - <i>Coetiroedd i Gymru</i>	Fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth a gyhoeddwyd gyntaf yn 2001

Mae Coetiroedd i Gymru'n cyflwyno strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer coed a choetiroedd. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2001, ond ers hynny, mae nifer o faterion wedi codi, fel cydnabod effaith bosibl newid yn yr hinsawdd a chyhoeddi polisiau newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae angen diweddarau'r strategaeth yn sgil hyn.

Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar gynigion i ddiwygio *Coetiroedd i Gymru* gan y Gweinidog Elin Jones ar 22 Gorffennaf a ddaeth i ben ar 14 Hydref 2008. Comisiwn Coedwigaeth Cymru sy'n rheoli'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r gwaith o ysgrifennu'r strategaeth newydd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad mewn papurau newydd cenedlaethol, cylchgronau arbenigol ac ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn. Cafodd ei hysbysu ymhellach trwy wefannau a chyhoeddiadau sefydliadau eraill. Cysylltwyd yn uniongyrchol â sefydliadau ac unigolion a oedd yn cynrychioli ystod eang o sectorau a buddiannau, gan gynnwys grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth, i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad. Ar ôl derbyn gwahoddiad, mynychodd staff y Comisiwn gyfarfodydd sefydliadau a grwpiau â diddordeb i siarad am yr ymgynghoriad ac i ateb unrhyw ymholiadau.

Roedd y papur ymgynghori a'r ffurflen ymateb i'w cael ar wefan y Comisiwn. Anfonwyd copïau yn uniongyrchol ar e-bost, neu darparwyd copi caled yn ôl y gofyn. Cafwyd 231 o atebion i gyd – gellir gweld rhestr o'r rhai a ymatebodd yn Atodiad 1.

Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Hydref, ysgrifennwyd drafft o'r strategaeth newydd a'i chyflwyno i gael ei hystyried fel rhan o'r Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r strategaeth wedi'i chyflwyno mewn penodau sy'n cynnwys 5 thema allweddol yn ymwneud â choed a choetiroedd. Mae gan bob thema set gysylltiedig o ganlyniadau. Dyma'r themâu:

Coetiroedd a Choed Cymru – mae'r pwnc hwn yn cynnwys natur coed a choetiroedd Cymru, y manteision y gallant eu cynnig a'r amcanion ar gyfer eu rheoli'n gynaliadwy yn y dyfodol.

Ymateb i newid yn yr hinsawdd – mae'r thema hon yn ymwneud â chyfraniad coed a choetiroedd at leihau ôl traed carbon Cymru.

Coetiroedd i Bobl – mae'r thema hon yn ymdrin â'r cyfleoedd a'r manteision y gall y coed a'r coetiroedd hyn eu darparu i bobl Cymru.

Sector Coedwigoedd Cystadleuol ac Integredig– mae'r thema hon yn edrych ar y cyfraniad y mae coed a choetiroedd yn ei wneud at economi Cymru a'r diwydiant coedwigoedd ac yn ystyried sut y gellir cynyddu'r cyfraniad hwn a sicrhau mwy o fanteision.

Ansawdd Amgylcheddol - mae'r thema hon yn ystyried y cyfraniad y mae coed a choetiroedd yn ei wneud at ansawdd yr amgylchedd - gan gynnwys bioamrywiaeth, nodweddion y dirwedd a rheoli pridd â dŵr.

Nodwch yr amcanion o'r polisi a allai effeithio ar gydraddoldeb a nodwch pa grwpiau cydraddoldeb a allai gael eu heffeithio, neu gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb.

Gwnaethpwyd asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o broses y Porth i Bolisïau. Yn ystod y cyfnod hwn, ystyriwyd bod yr effaith bosibl yn ganolog neu'n uchel ar draws nifer o grwpiau cydraddoldeb, gan gynnwys oedran ac anabledd. Ers i'r drafft o'r strategaeth newydd gael ei llunio, mae'r 5 thema allweddol wedi cael eu hystyried ac mae'n amlwg mai'r adran **Coetiroedd i Bobl** yw'r canolbwynt ar gyfer cyflwyno amcanion strategol mewn modd teg a chynhwysol. Felly, cynnwys y thema hon yw'r un a allai effeithio fwyaf ar gydraddoldeb ar draws pob grŵp, ac mae wedi cael ei harchwilio'n fanwl.

Coetiroedd i Bobl - Ceir is-themâu ar gynhwysiant cymdeithasol a thegwch trwy gydol yr adran hon sy'n cefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'n cydnabod y materion a wynebir gan sawl sector o'r boblogaeth, gan gynnwys yr ifanc a'r hen, y gwahanol lefelau o ffitrwydd a gallu a chymunedau trefol a gwledig. Mae'r adran hon yn hyrwyddo dull cynhwysol o gyflawni amcanion yn glir.

Ystyriwyd y gallai natur lefel uchel *Coetiroedd i Gymru*, a chynnwys y ddogfen, hyrwyddo a dylanwadu'n glir ar gydraddoldeb a chydweithio a chael gwared ar

wahaniaethu. Nodwyd bod y ddogfen yn croesgyfeirio at feysydd polisi lefel uchel eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyson, sy'n dangos cydnabyddiaeth o'r angen i gydweithio er mwyn cyflawni'r amcanion strategol a nodwyd.

Bydd y canlyniadau a'r amcanion dymunol a nodir yn y strategaeth yn cael eu cyflawni trwy gynlluniau gweithredu dilynol. Bydd camau gweithredu penodol a phrosiectau i gyflawni amcanion mewn ffordd deg yn cael eu nodi yn ystod y cyfnod hwn. Bydd angen cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cydraddoldeb i gynnal yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth greu'r cynlluniau gweithredu hyn.

Bydd yna gyfle i hyrwyddo cydraddoldeb wrth gyflawni camau gweithredu penodol.

Asesiad llawn wedi ei gwblhau gan: Maroline Lasbikan – Redenhill Consulting	
Cyfarwyddwr neu Reolwr yr Is-adran	Trefor Owen FCW
Awdur/Arweinydd Polisi	Clive Thomas FCW
Pobl eraill a fu'n ymwneud â'r asesiad	Barbara Spence a Sue Ginley, FCW

Mewnol	Craig Greenland Llywodraeth Cynulliad Cymru Cilla Thomas Llywodraeth Cynulliad Cymru Kieran Harris Llywodraeth Cynulliad Cymru Eva Townsend Llywodraeth Cynulliad Cymru Debbie Westlake FCW
Allanol	Adele Goodwin – Clymblaid Caerdydd a'r Fro ar gyfer pobl anabl Yn ogystal â hyn, gwahoddwyd nifer o unigolion a sefydliadau i gymryd rhan yn y cyfarfod ffurfiol. Byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau perthnasol a fydd yn cael eu dosbarthu (gan gynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb). Fel y nodir: Age Concern Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon Stonewall Cymdeithas Rhyng-ffydd Caerdydd Cyngor Rhyng-ffydd Cymru Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru Anabledd Cymru

Pwy yw'r prif Rhanddeiliaid Polisi
Llywodraeth Cynulliad Cymru Y Cyhoedd Y Diwydiant Pren a'r Sector Coedwigaeth Y Sector Amgylcheddol Grwpiau Buddiant Y Sector Cymdeithasol (gan gynnwys cymunedau lleol a'r sector gwirfoddol)

Asesiad Effaith Llawn – Ffynonellau Tystiolaeth

Polisi: *Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Coetiroedd Cymru*

Nod y polisi: **Coetiroedd i Bobl**

Cofnod o dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer pob grŵp cydraddoldeb.		Asesiad o'r dystiolaeth			
		Cryf	Bodddhaol	Anfoddhaol	Dim tystiolaeth/bwlch yn y dystiolaeth
Oedran					
TYSTIOLAETH	Plant 0-15 oed yw 19% o boblogaeth Cymru, pobl oed gweithio 16-59 oed yw 58% o'r boblogaeth a phobl oedran ymddeol yw 23% o'r boblogaeth (ac mae'r ffigwr hwn ar gynnydd). Yn gyffredinol, mae gan grwpiau Pobl Dduon a Lleafrifoedd Ethnig strwythur oed iau, gyda hyd at 45% o'r boblogaeth yn 0-15 oed mewn rhai grwpiau. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – amcangyfrifon canol blwyddyn Cymru 2007. (statswales.gov.uk), <i>A brief analysis of Demographic Equality Strands (2006)</i> (2006) Cynulliad Cenedlaethol Cymru Mae 15% o blant 0-15 oed yn ymweld â choetiroedd, 67% o bobl 16 – 59 oed a 18% o bobl oed ymddeol. Arolwg y Comisiwn Coedwigaeth o ymwelwyr â Choetiroedd Cynulliad Cymru (2004) Nid oes gan y grwpiau oed iau a hŷn gynrychiolaeth ddigonol o ran y nifer sy'n ymweld â choetiroedd. Dim ond 33% o'r ymwelwyr a ddaw o'r grwpiau hyn, o gymharu â 42% o gyfanswm y boblogaeth. Gwyddom am fanteision defnyddio cefn		X		

	gwlad ar gyfer mynediad a hamdden ac mae'r manteision hyn wedi cael llawer o sylw - daw ymarfer corff â manteision i iechyd a lles sy'n bwysig i bobl o bob oed. Fodd bynnag, mae ymarfer corff yn arbennig o fuddiol i bobl ifanc. Mae'n datblygu ffordd o fyw iach yn gynnar yn eu hoes ac o gymorth iddynt wrth heneiddio pan fydd eu hiechyd corfforol a meddyliol yn dirywio. <i>Ffocws Ystadegol ar Bobl Hŷn yng Nghymru - Ystadegau Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008</i> Mae tystiolaeth yn dangos nad yw oedolion ifanc yn cymryd digon o ran mewn gweithgareddau hamdden yng nghefn gwlad. Fodd bynnag, mae yna ddadl ynghylch a yw'r grwpiau hyn yn cael eu 'hallgáu' neu a ydynt yn penderfynu peidio â defnyddio cefn gwlad. Beth bynnag fo'r rheswm, mae angen annog y sector hwn i gymryd mwy o ran yng nghefn gwlad. <i>'Social exclusion in the countryside', Bill Slee (2002) Countryside Recreation Cyfrol 10.</i> Mae nifer o strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo pwysigrwydd gwella iechyd trwy weithgarwch corfforol a ffordd o fyw iach gan gyfeirio at oedran – fel: <i>Trechu Clefyd Coronaidd y Galon yng Nghymru: Cynllun Cyflawni drwy Dystiolaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001), Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Iach Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005</i> Mae Llywodraeth y DU'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol fel ffordd o wella iechyd, e.e. 30 munud y diwrnod o weithgarwch eithaf dwys, 5 diwrnod yr wythnos (Adran Iechyd 2004)				
--	--	--	--	--	--

	Dangosodd yr adroddiad ar brosiect Cydcoed bod pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n dda mewn grwpiau coetir cymunedol. Credai nifer sylweddol o bobl fod eu hiechyd a'u lles wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiectau. Yn gyffredinol, roedd 90% o'r bobl a arolygwyd fel rhan o adolygiad y prosiect yn credu bod coetiroedd yn gwneud cyfraniad pwysig o ran darparu mannau distraen lle gallent ymlacio, ac felly'n creu ymdeimlad o les. Y Comisiwn Coedwigaeth (2008) Gwerthusiad o Gydcoed: y buddion cymdeithasol ac economaidd o ddefnyddio coed a choetiroedd ar gyfer datblygu cymunedol yng Nghymru. Adroddiad Terfynol Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Medi 2008, Grŵp Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd, Is-adran Gwyddorau Amgylcheddol a Dynol, Forest Research Roedd rhai o rieni plant ifanc yn poeni am adael iddynt fentro allan ar eu pennau eu hunain i goetiroedd – fodd bynnag, mae'r achosion o droseddau personol mewn coetiroedd a mannau agored yn isel. <i>Accessibility of woodlands and natural spaces: Addressing crime and safety issues.</i> O'Brien a Tabbush, Forest Research 2005 Yn ystod yr ymgynghoriadau cyhoeddus, cafwyd tystiolaeth debyg gan rieni yng nghymoedd y De o ran gadael i'w plant ddefnyddio'r coetiroedd ar eu pen eu hunain. Y Comisiwn Coedwigaeth, Coed y Cymoedd, adolygiadau ar y Cynllun Dylunio Coedwig (amrywiol) 2001 – 2005.				
--	---	--	--	--	--

Anabledd					
TYSTIOLAETH	Mae 8% o'r rheiny sy'n ymweld â choetiroedd yn disgrifio'u hunain yn anabl - mae hon yn ganran isel o gymharu â'r 24% o gyfanswm poblogaeth Cymru a ystyrir yn anabl. Roedd 92% o'r rheiny sy'n ymweld â choetiroedd heb anabledau o gymharu â 76% o boblogaeth Cymru sydd yn y grŵp hwn. Arolwg y Comisiwn Coedwigaeth o ymwelwyr â Choetiroedd Cynulliad Cymru (2004) Wrth ystyried y boblogaeth gyfan, cafwyd ffigurau gwell o ran y defnydd a wneir o goetiroedd gan bobl anabl a'r rhai â salwch hirdymor yn arolwg Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd yn y DU 2007. Cafodd 1000 o oedolion eu holi, ac o'r rhain, disgrifiodd 280 (28%) eu hunain fel pobl anabl neu rai sydd â salwch hirdymor. O'r grŵp hwn, roedd 190 ohonynt – 19% o'r sampl gyfan, wedi ymweld â choetiroedd yn y 2 flynedd ddiwethaf. O'r rhai heb salwch, roedd 612 wedi ymweld â choetiroedd – sy'n cynrychioli 61% o gyfanswm sampl y boblogaeth. Y Comisiwn Coedwigaeth, Barn y Cyhoedd ar Goedwigoedd 2007: Cymru. Y Comisiwn Coedwigaeth, Tachwedd 2007. Disgrifir y manteision iechyd i bawb yn y dystiolaeth sydd yn yr adran Oedran uchod. Yr anawsterau sy'n wynebu'r rhan helaeth o bobl anabl sy'n ymweld â chefn gwlad yw lle i fynd a beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn cyrraedd yno. Dyma'r rhwystrau mwyaf cyffredin i ymweld â mannau awyr agored: - Rhwystrau corfforol - Diffyg gwybodaeth hygrych		X		

	- Diffyg cyfleusterau (toiledau, seddau, caffi hygyrch, amrywiaeth o weithgareddau) - Diffyg hyder neu ddiffyg ymdeimlad o groeso - Diffyg cludiant cyhoeddus cyfleus a hygyrch - Cost y cludiant, ffioedd parcio a lluniaeth Er mwyn annog ymwelwyr ag anableddau: - Gwybodaeth am gyfleusterau hygyrch – mewn fformatau hygyrch, gyda chyhoeddusrwydd da ac wedi'i dosbarthu'n dda. - Cludiant cyhoeddus hygyrch, gydag amserlenni a gwybodaeth ar gael am y daith a lleoedd parcio hygyrch. - Delwedd groesawgar, gan gynnwys mynedfa groesawgar a staff wrth law i helpu. Mynediad am ddim i gefnogwyr, galluogwyr neu ofalwyr hanfodol. Tystiolaeth gan <i>Cyfranogiad grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn hamdden awyr agored, OPENSspace Research Centre, CCGC 2008</i>. Gwelir mwy o dystiolaeth yn <i>“By All Reasonable Means: Inclusive Access to the Outdoors for Disabled People”</i>. Countryside Agency (2005), Rhif adroddiad CA 215. Mae'r ffaith nad oes gan rai o'r grwpiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth targed yn y Comisiwn Coedwigaeth (cyflogwr mwyaf y sector yng Nghymru) gynrychiolaeth ddigonol yn dangos diffyg amrywiaeth y sector coedwigaeth. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen i'w staff gynrychioli amrywiaeth y gymdeithas gyfan yn well. Bydd manteision amrywiaeth unrhyw sefydliad yn cael eu hadlewyrchu gan ei allu i ymdrin a chysylltu'n well â'r gymdeithas y tu allan i'r sefydliad. Cyflwynir yr amcanion hyn yn Strategaeth				
--	--	--	--	--	--

	Pobl(2007) a Strategaeth Amrywiaeth (2008) y Comisiwn Coedwigaeth (2007).				
--	--	--	--	--	--

Rhywedd a Hunaniaeth o ran Rhywedd					
TYSTIOLAETH	<u>Rhywedd</u> Yn ôl cyfrifiad 2001, roedd 48% o'r boblogaeth yn ddynion, a 52% o'r boblogaeth yn fenywod. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - amcangyfrifon canol blwyddyn Cymru 2007. Cafwyd ychydig o amrywiaeth yng % y rheiny a ymwelodd â choetiroedd y Comisiwn Coedwigoedd, gyda 56% ohonynt yn ddynion a 44% yn fenywod. Arolwg y Comisiwn Coedwigaeth o ymwelwyr â Choetiroedd Cynulliad Cymru (2004) Disgrifir y manteision iechyd i bawb yn y dystiolaeth sydd yn yr adran ar Oedran uchod. Mae rhai menywod ofn mentro allan ar eu pen eu hunain i goetiroedd o'r fath – fodd bynnag, mae'r achosion o droseddau personol mewn coetiroedd a mannau agored yn isel.(Pryderon hefyd am blant mewn mannau agored) <i>Accessibility of woodlands and natural spaces: Addressing crime and safety issues. O'Brien a Tabbush, Forest Research 2005</i> Adlewyrchir yr ymdeimlad hwn o berygl yng nghanfyddiadau darnau eraill o waith, fel <i>New Pathways for health and well-being: Summary of research to understand and overcome barriers to accessing woodlands.</i> Weldon et al Y Comisiwn Coedwigaeth 2007		X		

	Mae canlyniadau prosiectau Cydcoed yn dangos bod menywod yn cael eu cynrychioli'n dda mewn grwpiau coetir cymunedol. Dangosodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2008, fod 41% o'r cyfranogwyr yn credu bod eu hiechyd wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn prosiect. Y Comisiwn Coedwigaeth (2008) Gwerthusiad o Gydcoed: y buddion cymdeithasol ac economaidd o ddefnyddio coed a choetiroedd ar gyfer datblygu cymunedol yng Nghymru. Adroddiad Terfynol Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Medi 2008, Grŵp Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd, Is-adran Gwyddorau Amgylcheddol a Dynol, Forest Research Nid yw menywod sy'n gweithio yn y Sector Coedwigaeth wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan y Comisiwn Coedwigaeth fel y disgrifir uchod yn yr adran ar Anabledd. <u>Hunaniaeth o ran Rhywedd</u> Pobl drawsryweddol a thrawsrywiol - nid oes unrhyw ddata ystadegol am niferoedd ar gael i'r cyhoedd. Amcangyfrif yn y DU yn 2000 ar sail y rheiny a newidiodd eu pasbortau - 5000. Erbyn 2006 - roedd 1660 wedi derbyn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth sylweddol am nifer y bobl drawsryweddol a thrawsrywiol yn y boblogaeth. The Equalities Review. Engendered Penalties: Transgender and Transsexual People's Experiences of Inequality and Discrimination. Press for Change. 2007				
--	---	--	--	--	--

Hil					
TYSTIOLAETH	Mae 2% o boblogaeth Cymru'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae 61% o'r boblogaeth yma'n byw yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Dangosodd Cyfrifiad 2001 fod gan boblogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig strwythur oedran iau na'r rhan fwyaf o'r boblogaeth gwyn. Data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol/ Cyfrifiad 2001 Roedd llai na 0.5% o'r bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig hynny a oedd yn cynrychioli 2% o'r boblogaeth yn ymweld â choetiroedd. Arolwg y Comisiwn Coedwigaeth o ymwelwyr â Choetiroedd Cynulliad Cymru (2004) Ar lefel y DU, mae'r ffigurau'n dangos nad oes gan y grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gynrychiolaeth ddigonol o ran nifer yr ymwelwyr sy'n ymweld â chefn gwlad am y dydd. Yn 2002/03, roedd grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli 8% o'r boblogaeth. O gyfanswm yr ymweliadau dydd a wnaeth y boblogaeth, dim ond 2% o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a ymwelodd â chefn gwlad neu goetiroedd. Great Britain Leisure Day Visits Survey 2002/3. Arolwg a wnaed gan y Countryside Agency, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Dyfrffyrdd Prydain, Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, Scottish Natural Heritage, VisitBritain, VisitScotland a Bwrdd Croeso Cymru. Gwyddom fod cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael mwy o broblemau iechyd o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Gall cynyddu'r		X		

	mynediad i gefn gwlad wella ansawdd eu bywydau. <i>Capturing Richness : Countryside Visits by Black and Ethnic Minority Communities.</i> Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon a'r Countryside Agency 2003 Er gwaethaf rhagdybiaethau, mae gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ddiddordeb mewn cefn gwlad. Mynediad i gefn gwlad sy'n effeithio ar nifer yr ymweliadau a wneir gan y grwpiau hyn - mae'r ardaloedd yn anghyfarwydd, nid oes ganddynt wybodaeth amdanynt ac mae'r gost o ymweld â chefn gwlad yn ffactor hefyd. Rhoddir enghreifftiau cadarnhaol yn yr adroddiad hwn o'r profiadau a'r manteision y gallai'r gymuned bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu cael trwy ymweld â chefn gwlad a'r manteision cadarnhaol y gallai'r gymuned ehangach eu cael yn sgil hyn. <i>Capturing Richness : Countryside Visits by Black and Ethnic Minority Communities.</i> Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon a'r Countryside Agency 2003 Roedd grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cydnabod manteision cefn gwlad ond roedd eu defnydd wedi'i gyfyngu gan gost ymweliadau, diffyg gwybodaeth am gefn gwlad, y ffaith nad oedd ymweld â chefn gwlad yn rhan o'u diwylliant ac ofn gwahaniaethu. <i>Adolygiad Amrywiaeth y Countryside Agency 2005</i> Cydnabuwyd manteision defnyddio cefn gwlad a'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wrth geisio ei ddefnyddio. <i>Cyfranogiad grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn hamdden awyr agored</i> Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), OPENspace Research Centre, 2008 adroddiad ymchwil polisi 8/15				
--	---	--	--	--	--

	Mae yna dystiolaeth fod grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cydnabod y manteision o ddefnyddio cefn gwlad. <i>“What about us? Diversity review evidence” – rhan 1 1 Countryside Agency 2005 – nodyn ymchwil CRN 94</i> Mae lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig, yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu a hyd yn oed yn cael eu rhwystro rhag defnyddio safleoedd hamdden cefn gwlad anffurfiol. <i>Woodland Sensibilities: recreational uses of woods and forests in contemporary Britain. A report by the Centre for the Study of Environmental Change for the Forestry Commission. (1998) CSEC, Lancaster. Macnaughten, Grove-White, Weldon ac Waterton</i> Gall sawl ffactor ymddwyn fel rhwystrau i atal grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rhag defnyddio coetiroedd—ffactorau tebyg i'r rheiny a ddisgrifiwyd eisoes yn yr adran ar Anabledd uchod. Caiff agweddau staff y Comisiwn Coedwigaeth a darparwyr gwasanaeth cefn gwlad eraill tuag at grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'u dealltwriaeth ohonynt eu hystyried a disgrifir enghreifftiau o arferion gorau er mwyn annog grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ddefnyddio mwy o gefn gwlad. <i>Race Equality and the Forestry Commission, Adroddiad Forest Research (Edwards ac Weldon) 2006.</i> Gweler hefyd dystiolaeth gan <i>Cyfranogiad grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn hamdden awyr agored OPENspace Research Centre, CCGC 2008.</i> Yn yr un modd â phobl ifanc (fel y disgrifiwyd eisoes yn yr adran ar Oedran uchod), mae yna dystiolaeth i ddangos nad yw lleiafrifoedd ethnig yn cymryd digon o ran mewn hamdden cefn gwlad.				
--	---	--	--	--	--

	Fodd bynnag, mae yna ddadl ynghylch a yw'r grwpiau hyn yn cael eu 'hallgáu' neu a ydynt yn penderfynu peidio â defnyddio cefn gwlad. Beth bynnag fo'r rheswm, mae angen annog y sector hwn i gymryd mwy o ran yng nghefn gwlad. <i>'Social exclusion in the countryside', Bill Slee (2002) Countryside Recreation Cyfrol 10.</i> Nid yw staff y Sector Coedwigaeth yn cynnwys cynrychiolaeth ddigonol o leiafrifoedd ethnig. Cydnabyddir hyn gan y Comisiwn Coedwigaeth fel y disgrifir uchod yn yr adran ar Anabledd. Darllen pellach: <i>Adroddiad Fforwm Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006.</i> <i>Swyddfa Archwilio Cymru – Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad</i> 2006 <i>Equality and Inclusion of Social Diversity, y Comisiwn Coedwigaeth</i> 2009 (Drafft)				
Crefydd a Chred					

TYSTIOLAETH	Ychydig o dystiolaeth sydd o ran crefydd a chred. Yn ôl atebion i gwestiwn 'gwirfoddol' yng nghyfrifiad 2001 ynghylch crefydd, dywedodd 98% o'r ymatebwyr mai Cristnogion oeddynt. Roedd hyn yn cynrychioli 72% o boblogaeth Cymru. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2001, Cynulliad Cenedlaethol Cymru: A brief analysis of Demographic Equality Strands (2006) Mwslimiaid yw'r ail grŵp crefyddol fwyaf yng Nghymru, gan gynrychioli 0.7% o'r boblogaeth. Nododd 1.1% o boblogaeth Cymru nad oeddent yn Gristnogion nac yn Fwslimiaid. Cynulliad Cenedlaethol Cymru: A brief analysis of Demographic Equality Strands (2006). Mae prosiect yn Swydd Bedford yn creu "Lle Cred" yn un o goetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r lle hwn yn cael ei ddefnyddio gan grefyddau gwahanol. Mae gweithio ar brosiectau o'r fath yn galluogi'r rheiny sy'n cymryd rhan i ddysgu mwy am eu hunain, eu hamgylchedd a'i gilydd. Ar yr un pryd, mae'n darparu manteision amser, iechyd a lles i'r rheiny sy'n cymryd rhan. Mae'r prosiect wedi dangos bod gan sawl crefydd ddiddordeb mewn defnyddio coetiroedd a gweithio gyda'i gilydd. Faith Woodlands Dec 2006 – March 2007, The First Phase. Kevin Hand, y Comisiwn Coedwigaeth Mae Coedwig Khalsa yn Nottingham yn enghraifft gynharach o goetir yn cael ei ddefnyddio gan grwpiau crefyddol. Yn yr achos hwn, dechreuodd y gymuned Sikh y prosiect ym 1999. Wedi ei leoli mewn parc gwledig ar gyrion tref Nottingham, cafodd arian o Gronfa Treftadaeth y Loteri yn 2002 i fwrw ymlaen ag amrywiaeth o weithgareddau cymunedol.			X	
---------------------------	---	--	--	-----------------	--

Cyfeiriadedd Rhywiol					
TYSTIOLAETH	<i>"Very little credible data has been collected on sexual orientation. National surveys such as the Census of 2001 and the British National Survey of Sexual Attitudes and Lifestyles (NSSAL) do not ask a direct question on sexual orientation. Therefore, it is not possible to state with any confidence the size of the Lesbian, Gay and Bi-sexual (LGB) community in Wales. Estimates vary, Stonewall proposing a figure of around 10% but other studies proposing the figure is in the region of 1 or 2%. No data has been analysed at a Wales level"</i> A brief analysis of Demographic Equality Strands (2006) Cynulliad Cenedlaethol Cymru Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i'r amlwg sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chanlyniadau arfaethedig <i>Coetiroedd i Gymru</i> ac, yn fwy penodol, yr adran <i>Coetiroedd i Bobl</i>. <i>"The overall picture (in Wales) can be summarised as one of increasing inclusion of, and contribution made by, LGB people in Welsh society."</i> Counted In! The third all Wales survey of lesbian, gay and bisexual people (2007)				X

Hyrwyddo Cydraddoldeb		
TYSTIOLAETH	Fel y disgrifiwyd eisoes, roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio <i>Coetiroedd i Gymru</i> yn un eang iawn. O'r cychwyn cyntaf, ystyriwyd ei bod hi'n	

	bwysig sicrhau bod grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gallu cymryd rhan a rhoi eu barn. Oherwydd hyn, cysylltwyd yn uniongyrchol ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau targed cydraddoldeb. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd yn Atodiad 1. Ysgrifennwyd fersiwn terfynol <i>Coetiroedd i Gymru</i> ar ôl cyfarfod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Rhagfyr 2008. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn y cyfarfod ynghylch y strategaeth ddrafft yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, ond mae sylwadau eraill wedi cael eu hystyried a'u cynnwys yn y fersiwn terfynol. Canlyniad hyn yw dogfen sydd â themâu, naws a chynnwys sy'n hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol. Mae Pennod 4, <i>Coetiroedd i Bobl</i>, yn ymdrin â'r pethau y gall coetiroedd a choed eu cyfrannu at fywydau pobl. Yn y bennod hon ceir yr agweddau hynny a allai gael yr effaith fwyaf, ond y rhain hefyd yw canolbwynt hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol. Mae'r amcanion a'r camau gweithredu gydol yr adran hon yn nodi amrywiaeth o gyfleoedd a allai fod o fudd i bob rhan o'r gymdeithas. Arwyddwyd y strategaeth gan Elin Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, a hi fydd yn atebol. Mae'r atebolrwydd hwn yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i drin pawb yn gyfartal sydd bellach yn sail i holl strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.	
--	---	--

Crynodeb o'r Asesiad

Polisi:

Strategaeth Coetiroedd Cymru - gan ganolbwyntio ar yr adran
Coetiroedd i Bobl.

Effeithiau Gwahaniaethol a Nodwyd

Nid yw'r asesiad wedi amlygu unrhyw effeithiau gwahaniaethol uniongyrchol.

Nodwyd bod angen aralleirio rhai rhannau o adran ddrafft *Coetiroedd i Bobl*, ac mae'r rhain wedi'u hailysgrifennu bellach. Dyma un enghraifft:

Brawddeg wreiddiol:

.....yn arbennig mewn cymunedau sydd â'r angen mwyaf

Wedi'i haralleirio:

.....gan ystyried anghenion lleol ac amrywiaeth gymdeithasol

Nodwyd nifer o feysydd lle gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol. Er enghraifft – hwyluso mynediad gwell i goetiroedd er budd iechyd i'r grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel defnyddwyr, ee lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl.

Mae yna fylchau yn y dystiolaeth ar gyfer y grwpiau cydraddoldeb 'crefydd a chred' a 'chyfeiriadedd rhywiol', fel y nodwyd yn y tabl tystiolaeth uchod.

Cyfleoedd a Nodwyd i Hyrwyddo Cydraddoldeb

Bydd themâu, naws a chynnwys y strategaeth yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Dywedodd y rhai a gymerodd ran yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei bod hi'n amlwg bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r bobl hynny a allai gael eu heffeithio gan y strategaeth. Dangoswyd hyn yn yr amrywiaeth o enghreifftiau a oedd yn nodi'r cyfraniad cadarnhaol y gallai coed a choetiroedd ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru. Roedd yr enghreifftiau'n cyfeirio at gyflogaeth, iechyd a lles, twristiaeth ac addysg. Teimlwyd fod hon yn enghraifft ardderchog o sut y gellid cyflwyno ystod ehangach o bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru er bod y strategaeth yn gallu ymddangos yn fwy cyfyngedig ar yr olwg gyntaf. Dylid hyrwyddo hyn ar bob cyfle posibl.

Bydd lansio *Coetiroedd i Gymru* a'r cyhoeddusrwydd dilynol yn y wasg a'r cyfryngau yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo amrywiaeth yn gyhoeddus. Y Gweinidog, Elin Jones, fydd yn lansio'r strategaeth - bydd hyn yn denu diddordeb y cyfryngau. Mae cynrychiolwyr o sefydliadau amrywiaeth wedi cael eu gwahodd i'r digwyddiad lansio a byddant yn cael eu hannog i hyrwyddo amcanion y strategaeth i gynulleidfa ehangach.

Mae'r ffotograffau a ddefnyddir yn y strategaeth a gyhoeddir, sy'n dangos y manteision y gall coetiroedd a choed eu cynnig i gymdeithas, yn dangos amrywiaeth eang o bobl. Defnyddir rhai o'r lluniau hyn eto mewn taflen grynhoi fer ac ar faneri hyrwyddo. Bydd y baneri a'r taflenni'n cael eu defnyddio mewn digwyddiadau eraill lle gellir hysbysebu'r strategaeth. Bydd hyn yn hyrwyddo natur gynhwysol y strategaeth ymhellach.

Bydd erthyglau sy'n hysbysebu'r strategaeth newydd yn cael eu cyhoeddi mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau penodol (ee y fasnach goed) a chyffredinol (ee papurau newydd) lle bydd yna gyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

Bydd *Coetiroedd i Gymru* ar gael ar wefannau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill.

Yn dilyn y strategaeth bydd Cynllun Gweithredu'n cael ei greu a fydd yn nodi prosiectau penodol a fydd yn cyflwyno'r nodau a'r amcanion strategol. Bydd angen Asesiadau manylach o'r Effaith ar Gydraddoldeb bryd hynny, a bydd y prosiectau dilynol yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn uniongyrchol i'r boblogaeth ehangach.

Strategaeth 50 blynedd yw *Coetiroedd i Gymru* a fydd, gyda'r cynllun gweithredu hwn, yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb am genedlaethau i ddod.

Ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gydraddoldeb ac amrywiaeth sydd wrth wraidd y strategaeth hon.

Cynllun Gweithredu Asesiad Effaith Llawn

Lle nodwyd effaith wahaniaethol, pa gamau a gymerir i ddileu'r effeithiau hynny neu i'w lliniaru?

Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol penodol. Roedd geiriad y strategaeth ddrafft yn gynhwysol ar y cyfan. Roedd angen aralleirio rhai adrannau er mwyn egluro cynwysoldeb amcanion strategol.

Mae cyfeiriadau wedi cael eu cynnwys mewn adrannau eraill o'r strategaeth er mwyn hyrwyddo dull cynhwysol o gyflawni canlyniadau. Dangosir hyn yn Adran 7 - Cyflawni Coetiroedd i Gymru, pan gyfeirir yn uniongyrchol at bwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant wrth weithredu cynlluniau gweithredu er mwyn cyflawni amcanion strategol.

Camau a gymerwyd neu a gynigiwyd	Rhesymwaith	Pwy fydd yn elwa	Erbyn pryd	Pwy sy'n gyfrifol
Aralleirio adrannau o'r strategaeth ddrafft a chynnwys cyfeiriadau at bolisiau ehangach Llywodraeth y Cynulliad	I sicrhau nad oes unrhyw allgau ac i hyrwyddo cynhwysiant	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	20 Ionawr 2009	Barbara Spence

Cyfiawnhad: Nodwyd effaith wahaniaethol ond mae rheswm dilys dros beidio â chymryd camau i ddileu neu i lliniaru'r effaith.

Ddim yn berthnasol

Cyfleoedd: Nodwch y camau a gynlluniwyd i sicrhau bod yr effeithiau cadarnhaol gymaint ag y gallant fod.

Camau a gymerwyd neu	Rhesymwaith	Pwy fydd yn elwa	Erbyn pryd	Pwy sy'n gyfrifol
----------------------	-------------	------------------	------------	-------------------

gamau arfaethedig				
Aralleirio adrannau o'r strategaeth ddrafft	I sicrhau nad oes unrhyw allgau ac i hyrwyddo cynhwysiant	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	28 Ionawr 2009	Barbara Spence

Cyfeiriadau wedi'u cynnwys yn y strategaeth i hyrwyddo cynhwysiant	I gefnogi a hyrwyddo dull cyflawni a chysylltu â meysydd polisi ehangach Llywodraeth y Cynulliad.	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	28 Ionawr 2009	Barbara Spence
--	---	-----------------------------------	----------------	-----------------------

Cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Coetiroedd Cymru	I ddangos dull cynhwysol o ddatblygu'r strategaeth ddiwygiedig.	Pob rhanddeiliad a fydd yn gallu adnabod pa mor gynhwysol yw'r strategaeth ddiwygiedig	Dyddiad cyhoeddi'r strategaeth Mawrth 2009	Barbara Spence
--	---	--	--	-----------------------

Cyhoeddi <i>Coetiroedd i Gymru</i>	I gael y cyhoeddusrwydd gorau posibl ar gyfer cynnwys <i>Coetiroedd Cymru</i>	Pob rhanddeiliad	Dyddiad cyhoeddi'r strategaeth Mawrth 2009	Barbara Spence
------------------------------------	---	------------------	--	-----------------------

Cyhoeddi crynodeb <i>Coetiroedd i Gymru</i>	I gael cyhoeddusrwydd ar gyfer Coetiroedd i Gymru. Darparu taflen wybodaeth i gynulleidfa ehangach na fyddai'n darllen strategaeth lawn.	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	Dyddiad cyhoeddi'r strategaeth Mawrth 2009	Barbara Spence
---	--	-----------------------------------	--	-----------------------

Cyhoeddi <i>Coetiroedd i Gymru</i> ar y rhynggrwyd	I hysbysebu Coetiroedd i Gymru a'i gyflwyno i gymaint o bobl â phosibl	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	Dyddiad cyhoeddi'r strategaeth Mawrth 2009	Barbara Spence
---	--	-----------------------------------	--	-----------------------

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – ar Gynllun Gweithredu i gyflawni amcanion y strategaeth.	Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r amcanion yn gynhwysol	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	30 Rhagfyr 2009	Staff polisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru amrywiol
--	---	-----------------------------------	-----------------	---

Prosiectau unigol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu i gyflawni amcanion y strategaeth.	Bydd hyn yn hwyluso gyda'r gwaith o gyflawni'r amcanion yn gynhwysol	Pob rhanddeiliad fel sy'n briodol	Fel sy'n briodol	Amrywiol – staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru, sector preifat, sector gwirfoddol
---	--	-----------------------------------	------------------	---

Cyfiawnhad: Nodwyd effaith wahaniaethol ond mae rheswm dilys dros beidio â chymryd camau i ddileu neu i liniaru'r effaith.

Ddim yn berthnasol

--

Atodiad 1

Rhestr o ymatebwyr – wedi'u rhestru yn ôl y wyddor

Afonydd Cymru
AHNE Bryniau Clwyd
Aitchesse Cyf. Arkady Cyf. Stakis Forestry, The Forestry Partnership
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
AJ Charltons
Allt Pwll Priddog, Llanymddyfri
Alternative Woodland Management
Andrew Bronwin a'i Gwmni
AOM Associates
ARC Woodlands Cyf.
A W Jenkinson Forest Products
BASC (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain)
BSW Timber
Bwlch Sais
CADW
CALU – Prifysgol Bangor
CCGC
C Lewis Timber Haulage
Charles Ransford a'i Fab Cyf
Clifford Jones Timber Cyf
Coed BSW
Coed Cadw
Coed Cymru
Coed Elwy
Coed Trallwm
Coed y Bobl
Coedwig Gymunedol Long Wood
Coedwigaeth Corwen Cyf.
Coedwigaeth David Rice
Coetir Cymunedol Blaen Brân
Coetiroedd Cambria Cyf
Confor
Continuous Cover Forestry Group
Cyfeillion Gwiwerod Coch Ynys Môn
Cynghrair Twristiaeth Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Benfro
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Gwynedd
Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Tref Doc Penfro
Cymdeithas Canŵio Cymru
Cymdeithas Coetiroedd Cymunedol Cymru
Cymdeithas Eryri
Cymdeithas Moch Daear Clwyd
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
Cymdeithas Meithrinfeydd Coed Powys
Cymdeithas y Tirfeddianwyr a Busnes
Cymunedau yn Gyntaf Abertyleri
D Rees Forest Nurseries
David Rice Forestry
Dinas a Sir Abertawe
Dyfnant and Vyrnwy Horse Riders and Carriage Drivers Association
Edistone Cyf.
ETC Sawmills
Euroforest
FE Woodlands
Forestry Direct
Fountains ccc
Fforwm Coetiroedd ar gyfer Dysgu
Golygfa Gwydyr
Groundwork Merthyr a Rhondda Cynon Taf
Groundwork Cymru
Grŵp Aberystwyth Gwyrddach
Grŵp Amgylcheddol Cefn Gwlad Castedd-nedd Port Talbot
Grŵp Gweithredu Cefn Croes
Gwasanaethau Small Wood
Gwasanaethau Softwood
Gwersyll Ieuenctid Cristnogol Sant Madog
Hay Woods
Hugh Wheeldon a'i Gwmni
Maelor Forest Nurseries
Melin Llificio a Ffensys Glasfryn
Menter Ceirw Cymru
MG Harvesting
Miller Land Management
Parciau Cenedlaethol Cymru
Partneriaeth Amgylcheddol Merthyr Tudful
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Pathfinder Renewable Energy
Paul Raymond-Barker a'i Gwmni
Peter Chambers Cyf.
Pontrilas Group Packaging
Pontrilas Timber
Ramblers Cymru
Rob Marsh Woodland Services

RSPB
RWE Npower
Sefydliad Coedwigwyr Siartredig
Sefydliad Bywyd Gwyllt Cymru a'r Rhwydwaith Tir Gwyllt
S J Archer & Son Timber Haulage
Small Woods Association
Small Wood Services
Softwood Services
Steve Lloyd Timber
Sustainable Forest Management
Tanwyddpren Cymru
Teifi Timber products Cyf.
The Very Efficient heating Company
Tilhill Forestry Cyf
Tir Coed
Tubex Cyf.
UKFPA
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
UPM Tilhill
WEL
Woodknowledge Wales
YDCW Sir Benfro
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
Ymddiriedolwyr Ystad Felinfach
Ysgol Goedwig Cymru
Ystad Cefn Coch

Mae'r rhestr hon yn cynrychioli 127 o ymatebion.

Yn ogystal â'r rhain, cafwyd 104 ymateb gan unigolion nad oedd yn rhan o unrhyw grŵp neu sefydliad penodol.